**Cofnod Penderfyniadau:**
**Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

**Decision Record:**
**Police and Crime Commissioner for North Wales**

| | |
|---|---|
| | **Rhan 1 / Part 1** |
| | **Cyf/Ref: DM.2022/34** |
| **Teitl:** | **Title:** |
| Crimestoppers – Gweithiwr Fearless | Crimestoppers – Fearless Worker |
| **Crynodeb Gweithredol:** | **Executive Summary:** |
| Mae hwn yn gais i roi cyllid grant er mwyn recriwtio Gweithiwr Fearless Crimestoppers er mwyn paratoi, hwyluso a chyflawni sesiynau atal trosedd ac addysg diofn i bobl ifanc a'r rhai hynny a gyflogir i weithio gyda phobl ifanc ledled Gogledd Cymru.<br><br>Fearless ydy elusen genedlaethol Gwasanaethau Ieuenctid Crimestoppers. Mae'n cynorthwyo galluogi pobl ifanc wneud penderfyniad cadarnhaol a chytbwys ynghylch hysbysu am drosedd a rhoi gwybodaeth anfeirniadol ynghylch trosedd a throseddoldeb i bobl ifanc. Gwneir hyn drwy adnoddau ieuenctid a sesiynau allgymorth ar ganlyniadau trosedd, gyda phwyslais benodol ar Linellau Cyffuriau, Troseddau Cyllyll ac Ymdriniaeth Gwylwyr.<br><br>Gall pobl ifanc drosglwyddo gwybodaeth am drosedd i Fearless.org yn gwbl ddienw ac anhysbys. Mae hyn yn galluogi pobl ifanc gael llais yn eu cymuned er mwyn atal trosedd pan na wnânt neu os na allent ymgysylltu gyda'r heddlu'n uniongyrchol. | This is a request to provide grant funding to recruit a Crimestoppers Fearless Worker to prepare, facilitate and deliver fearless crime prevention and education sessions to young people and those employed to work with young people across North Wales.<br><br>Fearless is the national charity for Crimestoppers' Youth Services and helps to empower young people to make positive, informed decision about reporting crime and provides non-judgemental information about crime and criminality to young people via youth resources and outreach sessions on the consequences of crime, with a particular focus on County Lines, Knife Crime, and the Bystander Approach.<br><br>Young people can also pass on information about crime to Fearless.org completely anonymously and safely. This empowers young people to have a voice in their community to stop crime when they will not or cannot engage with the police directly. |
| **Goblygiadau:** | **Implications:** |
| Ariannol – Mae cyfraniad o £42,227.48 ar gael o Gronfa Trosedd ac Anrhefn 23/24 er mwyn cynorthwyo'r rôl hon.<br><br>Y cynllun Heddlu a Throsedd – Mae'r rôl hon yn cynorthwyo blaenoriaeth Cynllun Heddlu a Throsedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i gynorthwyo a gwarchod plant a phobl ifanc a'u cyfeirio o'r system cyfiawnder troseddol. Bydd y prosiect Fearless hefyd yn ymateb i'r cynnydd mewn pobl ifanc yn cario cyllyll a phroblemau gangiau fel llinellau cyffuriau, cyffuriau a chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Bydd canlyniadau'r rôl hon yn cael eu monitro drwy adroddiadau chwarterol a chyfarfodydd rheolaidd hefo Fearless. | Financial – A contribution of £42,227.48 has been made available from the Crime and Disorder Fund 23/24 to support this role.<br><br>Police and Crime Plan – This role supports the Police and Crime Commissioner's Police and Crime Plans priority to support and protect children and young people and divert them away from the criminal justice system. The Fearless project will also respond to the increase in young people carrying knives and gang related issues such as county lines, drugs and CSE. The outcomes for this role will be monitored via quarterly reports and regular meetings with Fearless.<br><br>Welsh Language – This role will be fully bi-lingual. |

## Cofnod Penderfyniadau:
## Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

## Decision Record:
## Police and Crime Commissioner for North Wales

| | |
|---|---|
| Y Gymraeg – Bydd y rôl hon yn gyfan gwbl ddwyieithog.<br><br>AD – Dim<br><br>Cydraddoldeb – Dim | HR – None<br><br>Equality – None |
| **Swyddog Gweithredu a Dirprwy Swyddog Monitro:** | **Executive Officer and Deputy Monitoring Officer:** |
| Rwyf yn cadarnhau fod hwn yn gais priodol i'w gyflwyno i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.<br><br>Cyhoeddir Rhan 1 o'r ddogfen hon. Eithrir Rhan 2 o'r ddogfen hon gan ei bod yn sensitif yn fasnachol. | I confirm that this is an appropriate request to be submitted to the Police and Crime Commissioner.<br><br>Part 1 of this document is to be published; Part 2 of this document is considered exempt as it's commercially sensitive. |
| **Llofnod / Signature:** | **Dyddiad/Date**<br><br>**15.05.23** |

| | |
|---|---|
| **Cymeradwyaeth a sylwadau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd** | **Approval and comments of Police and Crime Commissioner** |
| *Gallaf gadarnhau fy mod yn cymeradwyo'r hyn a nodwyd uchod* | *I confirm that the above request has my approval* |
| Llofnod / Signature: | |
| *Andy Dunbobbin*<br>*Comisiynydd Heddlu a Throsedd – Police and Crime Commissioner*<br>Dyddiad/Date: 17.05.23 | |